**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 20fed Hydref, 2016 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor J. Higginson (Chairman)
County Councillor P. Jordan (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, J. Prosser, D. Blakebrough, M. Powell, V. Smith, G. Burrows, R. Chapman, P. Clarke, D. Dovey, G. Down, A. Easson, D. Edwards, R. Edwards, P. Farley, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, E. Hacket Pain, B. Hayward, M. Hickman, P.A.D. Hobson, G. Howard, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, P. Murphy, B. Strong, A. Watts, A. Webb, K. Williams and A. Wintle

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Simon Kneafsey | |

**APOLOGIES:**

Councillors J. Crook, D. Evans, J. George, R. Harris, S. Jones, S.B. Jones, J. Marshall, F. Taylor, P. Watts and S. White

**2. Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn**

Wrth agor y cyfarfod, fe gynhaliodd y Cadeirydd munud o dawelwch er cof am drychineb Aberfan.

Fe gymerodd yr Arweinydd eiliad i fyfyrio ac fe gynghorodd y byddai Cyngor Sir Fynwy yn cynnal munud o dawelwch y diwrnod canlynol. Fe ategodd yr Arweinwyr Grŵp deimladau'r Arweinydd ac fe awgrymwyd bod yr Arweinydd a'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Fwrdeistref i gynnig cydymdeimlad pobl Sir Fynwy.

Fe dderbyniom adroddiad y Cadeirydd.

Fe gyflwynodd y Cynghorydd Sir A. Webb ddeiseb i newid y terfyn cyflymder ar yr A446, rhwng Tyndyrn a Llandogo.

Fe gyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Gymunedau Cryf at argymhelliad a oedd wedi cael ei wneud gan y pwyllgor bod Seminar Aelodau yn cael ei drefnu yn ymwneud â goryrru a diogelwch a ffordd, a gofynnwyd bod hyn yn cael ei rhoi ar waith.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 20fed Hydref, 2016 at 2.00 pm**

## 3. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan Aelodau.

## 4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Doedd dim eitemau ar y fforwm agored i'r cyhoedd.

## 5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016 am 2.00pm fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, nodwyd y dylai eitem 13.1 adlewyrchu bod Aelod o'r Cabinet wedi cynghori y byddai pob addewid a wnaethpwyd i drigolion yn cael eu cadw.

## 6. Nodi rhestr camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf

Fe dderbyniom Restr Camau Gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016.

Fe ddarparodd y Cynghorydd Sir Greenland ddiweddariad yn ymwneud â'r Velothon. Yn dilyn trafodaethau gyda Run4Wales, fe gytunwyd y byddai'r ffyrdd yn cau yn ôl system dreigl ar gyfer ras broffesiynol Velothon 2017. Felly, byddai llawer llai o ffyrdd ar gau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roeddem hefyd wedi clywed y byddai yna ras fyrrach, yn troi i'r chwith ar y gyffordd gyda'r A4042, ac allan o'r Sir. Byddai Run4Wales yn cysylltu â busnesau yn brydlon ynglŷn â'r llwybr.

## 7. Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio ar 15 Medi 2016

## 8. Rhestr o Gynigion

Fe gynghorydd y Cadeirydd y byddai'r Cyngor yn derbyn eitem 9a cyn 8a.

### 8.1. Cynnig gan y Cynghorydd Sir A. Easson

*Ni fydd y Cyngor hwn yn cyflogi unrhyw un ar delerau ac amodau "cytundeb hyblyg". Ar ben hynny, bydd y Cyngor hwn yn cefnogi unrhyw fusnesau sy'n darparu gwasanaethau ar gytundeb i Sir Fynwy sy'n defnyddio amodau o'r fath, ac a dweud y gwir, bydd yn mynnu eu bod ddim yn gweithredu yn y modd hwn.*

Fe ddatganodd y Cynghorydd Sir P. Clarke fuddiant personol, ffafriol yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel Cyfarwyddwr Tŷ Glen-yr-Afon a Gwesty Three Salmons sydd, o bryd i'w gilydd, yn darparu gwasanaethau i Gyngor Sir Fynwy, ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Wrth gyflwyno'r cynnig, fe nododd y Cynghorydd Sir Easson na ddylai Cyngor Sir Fynwy dderbyn cytundebau o'r fath, a ellid eu defnyddio fel modd o osgoi cytundebau dim oriau. Credwyd y gellid hefyd trafod y mater yn y Pwyllgor Archwilio.

Cytunodd yr Aelodau bod angen rhagor o esboniad ar gytundebau hyblyg, ac y gallai'r Pwyllgor Archwilio fynd i'r afael â hyn.

Cynigodd y Cynghorydd Easson addasu'r cynnig i gynnwys:

*'a symud y drafodaeth hon i'r Pwyllgor Archwiliad am benderfyniad'.*

Eiliwyd yr addasiad a chariwyd y cynnig.

## 9. Adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Pobl a Llywodraethu Gwybodaeth

### 9.1. Contractau Dim Oriau

Fe gyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet yr adroddiad i ddarparu'r cyngor llawn â dadansoddiad llawn o'r defnydd o gytundebau dim oriau / dim oriau gwarantedig / dros dro ledled y sefydliad, yn unol â chais y cyngor llawn ar 22 Medi.

Yn ystod y drafodaeth fe nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhai anghysondebau yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd a'r gobaith oedd y byddem yn cydymffurfio'n llawn â'r cyfarwyddyd cyfredol cyn gynted â phosib.
- Derbyniodd Aelodau restr o'r meysydd ble roedd y contractau yn cael eu defnyddio ac roeddent yn gallu adnabod y gwasanaethau na allai fodoli heb y trefniadau hyn.
- Nododd Arweinydd yr Wrthblaid bod nifer y contractau dim oriau wedi mwy na dyblu mewn dwy flynedd, yn sgil toriadau a mwy o ddibyniaeth ar staff dros dro.
- Rhoddwyd manylion i aelodau o gontractau dim oriau gyda Chyngor Dinas Casnewydd, ond teimlwyd mai cymharu arfer drwg gydag arfer drwg oedd hyn, ac nid oedd yn gymhariaeth ddefnyddiol. Roedd yn siomedig bod canran Sir Fynwy, sef 9%, yn uwch na'r cyfartaledd derbyniol o 5%.
- Cyfeiriodd Aelod at rai pobl a oedd wedi gweithio 20 awr, weithiau mwy, ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf a'u bod dal ar gontractau dim oriau. Roedd yn bryder na fod y materion hyn yn cael eu codi yn y systemau arfarnu.
- Gofynnwyd a oedd y weinyddiaeth Geidwadol/Rhyddfrydol yn hyderus ac yn fodlon bod dim o'r 318 o bobl ar gontractau dim oriau wedi gweithio oriau rheolaidd bob wythnos am gyfnod o fwy na thri mis fel rhan o swydd brif ffrwd.
- Y gobaith oedd y na fyddai'r model cyflwyno newydd yn effeithio ar y bobl ar gontractau dim oriau.
- Diolchodd yr Arweinydd i swyddogion am y wybodaeth gan gydnabod, er bod mwy o waith i'w wneud, ein bod ar y trywydd cywir, ac roedd y sbardunau am asesiad yn galonogol. Fe nododd yr Arweinydd ei fod yn gwrthod cael ei darlithio gan y Grŵp Llafur, tra bod nifer o'u hawdurdodau ledled Cymru yn dal i fethu â darparu cyflog byw, yn wahanol i'r Cyngor hwn dan reolaeth y Ceidwadwyr.
- Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid cyfeirio'r manylion hyn at y Pwyllgor Archwilio ac fe gytunwyd i drafod hyn gyda'r Cadeirydd Archwilio.

Fe gyflwynodd y Cynghorydd Sir Howarth gynnig bod y Pwyllgor Archwilio yn edrych ar y contractau dim oriau o fewn Cyngor Sir Fynwy ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor cyn gynted â phosib. Eiliwyd y cynnig hwn.

Wrth gael ei roi i bleidlais, fe gariwyd y cynnig.

Fe benderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad, ynghyd â'r cynnig a gyflwynwyd:

- Bod y Cyngor yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd.

## 10. Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 20fed Hydref, 2016 at 2.00 pm**

### 10.1. Adroddiad Panel y Pwyllgor Dethol ar Safonau

Fe gyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro adroddiad yn esbonio bod angen penodi dau aelod o'r Pwyllgor Safonau oherwydd bod cyfnod dau aelod annibynnol cyfredol yn dod i ben ar 13 Ionawr 2017. Gofynnwyd i aelodau argymell meini prawf ar gyfer y penodiadau ac i sefydlu Panel i wneud argymhellion i'r Cyngor ar y penodiadau.

Cawsom ein cynghori bod Cynghorydd Sir o Un Llais Cymru a'r Aelod Lleyg, yr Uchel Siryf wedi cytuno i eistedd ar y panel ar yr achlysur hwn. Ar ben hynny, byddai hysbyseb am aelodau annibynnol yn cael ei roi yn y South Wales Argus, a phapurau newydd cysylltiedig, gyda dyddiad cau o 18 Tachwedd 2016.

Fe nodom nad oedd modd enwebu aelodau cyfredol o'r Pwyllgor Safonau.

Ar ran Grŵp y Ceidwadwyr, fe enwebodd yr Arweinydd y Cynghorydd P. Jordan.

Ar ran y Grŵp Llafur, fe enwebodd y Cynghorydd Batrouni y Cynghorydd J. Higginson.

Ar ran y Grŵp Annibynnol fe enwebwyd y Cynghorydd F. Taylor.

Wrth gael ei roi i bleidlais, fe benderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad:

- Penodi tri aelod etholedig i Banel at ddibenion Rheoliadau 15 a 16 o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.
- Gofyn i Un Llais Cymru benodi aelod o'r Cyngor Cymunedol i'r Panel.
- Bod y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad ag arweinwyr y grwpiau, yn penodi aelod lleyg i'r Panel.
- Mabwysiadu a chyhoeddi meini prawf ar benodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau sy'n gofyn am: Annibyniaeth wleidyddol; y gallu i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth ac arweiniad yn ymwneud â Chodau Ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus; profiad mewn rôl gydag atebolrwydd cyhoeddus; y gallu i herio'r Cyngor mewn perthynas â'i safonau mewn modd teg a chyson; dealltwriaeth a pharch am gyfrinachedd; yn dangos gonestrwydd personol ac ariannol.

## 11. <u>Adroddiad y Prif Weithredwr</u>

### 11.1. Rhaglen Ysgolion y Dyfodol

Fe ddatganodd y Cynghorydd Sir L. Guppy fuddiant personol, anffafriol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â'i rôl fel Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Cil-y-Coed, ac am fod aelod o'r teulu yn mynychu'r ysgol.

Fe ddatganodd y Cynghorydd Sir D. Blakebrough fuddiant personol, anffafriol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â'i rôl fel Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Trefynwy, ac am fod ei phlentyn yn mynychu'r ysgol.

Fe ddatganodd y Cynghorydd Sir R. Edwards fuddiant personol, anffafriol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau am fod aelod o'r teulu yn mynychu Ysgol Gyfun Trefynwy.

Fe groesawodd Aelod o'r Cabinet Pennaeth Ysgol Cil-y-Coed a Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Trefynwy i'r cyfarfod. Fe gyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor a oedd yn darparu diweddariad ar gynnydd Rhaglen Ysgolion y Dyfodol a newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf gymeradwy a fydd yn galluogi cyflwyno dwy ysgol newydd i ddisodli Ysgol Cil-y-Coed ac Ysgol Gyfun Trefynwy.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 20fed Hydref, 2016 at 2.00 pm**

Fe gynghorodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr ar ran disgyblion Ysgol Cil-y-Coed yn diolch i Gyngor Sir Fynwy am ei benderfyniad i adeiladu'r ysgol newydd, gan ddiolch i'r Cynghorwyr hefyd.

Yn dilyn cyflwyniad gan Reolwr Rhaglen Ysgolion y Dyfodol, dechreuwyd trafodaeth, ac fe godwyd y pwyntiau canlynol:

- Fe fynegodd y Cynghorydd Sir Hayward siom bod y gyllideb eisoes wedi gorwario gan 15% ac fe holodd am gyfiawnhad ar gyfer hyn. Credwyd y dylid adnabod costau sefydlog yn arbennig oherwydd bod yr amodau gwreiddiol yn hysbys cyn dechrau'r adeiladu. Gofynnwyd am ragor o esboniad am dalu'r costau.
- Roedd pryder y byddai dymchwel y pwll nofio yn golygu byddai dim pwll nofio ar gael am o leiaf 12 mis.
- Fe ymatebodd Aelod o'r Cabinet gan ddweud y byddai cost y deunyddiau adeiladu a'r costau llafur yn aros yr un fath beth bynnag y safle. Roedd y tarfu ar yr ysgol yn hysbys ac wedi cael ei gynllunio ar ei gyfer. Roedd y costau bellach yn sefydlog a byddai unrhyw orwariant nawr yn cael ei dalu gan y contractwyr.
- Cadarnhawyd y byddai'r costau o fenthyca ar gyfer y gyllideb gyfalaf ychwanegol yn dod allan o'r costau cynnal a chadw ar gyfer yr ysgol, nid costau staff. Byddai'r gost o gynnal a chadw'r ysgol newydd yn finimol.
- Cadarnhawyd bod yr ysgol angen defnydd parhaus o'r neuadd chwaraeon, ac y byddai dim opsiwn arall heblaw am gau'r neuadd am gyfnod o amser.
- Ymatebodd aelodau i 2.1.3 yn yr adroddiad:
  *Cytuno i roi awdurdod dirprwyedig i'r Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog dros Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid, i bennu'r pecyn ariannu gorau ar gyfer cyfraniad y Cyngor o £5.95 miliwn gan ystyried:*
  - *Cyfle i ryddhau asedau ychwanegol dan berchnogaeth y Cyngor i'w gwerthu;*
  - *Cyfleoedd benthyca darbodus gyda chyfraniadau blynyddol o gyllidebau Ysgol Cil-y-Coed a Threfynwy gan gydnabod gwelliannau arwyddocaol mewn arbed ynni a chael gwared ar unrhyw angen materol i gynnal a chadw'r adeilad am gyfnod estynedig.*
  - *Cael ei gynnwys o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o ddarpariaeth refeniw (£476k) i ariannu'r £5.95 miliwn yn llawn trwy fenthyca darbodus dros 25 mlynedd.*

  Nododd y Cynghorydd Sir Batrouni bod dim modd iddo gefnogi'r ail bwynt bwled yn yr argymhellion. Roedd hefyd pryderon yn ymwneud â'r asedau a werthir, yn unol â'r pwynt bwled cyntaf.
- Mewn ymateb i hyn fe esboniodd yr Aelod o'r Cabinet mai adeiladau dros ben oedd yr asedau o dan y cynlluniau cyfredol ar gyfer ad-drefnu, a ffermydd sirol dan gynnig ar hyn o bryd. Y pwynt o ran ysgolion oedd y dylid defnyddio unrhyw arbedion o fewn ysgolion i gael effaith ar y benthyca darbodus, sef y swm lleiaf a fyddai angen ei benthyg. Fe ychwanegodd mai nid mater o gyflawni gostyngiadau staff oedd hi, ond bod cyflawni arbedion yn cynorthwyo gyda'r broses.
- Ailadroddodd yr aelodau bod pryderon yn ymwneud â rheolaeth ariannol a methu ar addewidion, yn enwedig gan fod gorwariant o £17 miliwn wedi bod, a bod angen rhagor o waith i wirio cost y pwll newydd.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir J. Higginson am 16:10pm*

- Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio gyda mynediad anabl cyflawn.
- Mynegodd aelodau ddiffyg hyder ym Mwrdd y Rhaglen a nodwyd y dylai Aelodau chwarae rhan fwy yn y broses o wneud penderfyniadau.

- Mynegodd y Cynghorydd A. Watts bryder am y diffyg cyllid ar gael i ddatblygu Ysgol Cas-gwent ymhellach.
- Roedd y Cynghorydd Down yn gofidio am yr awgrym y dylai'r ysgol dalu cost y llog ar yr arian a fenthycwyd, oni bai bod modd cadarnhau'r arbedion o'r costau cynnal a chadw. Fe ychwanegodd, gan fod y Cynghorydd Hacket Pain wedi cadarnhau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor y byddai datblygiad y pwll yn mynd yn ei flaen fel yr addawyd, rhaid bod yr Aelod o'r Cabinet wedi gwybod ar y pryd y na fyddai'r pwll yn cael ei adeiladu yn unol â'r addewidion a wnaed, ac y dylai ailystyried ei sefyllfa.
- Cawsom ein cynghori bod yr ymrwymiad i'r pwll yn parhau ac roedd disgwyl y byddai wedi'i gwblhau erbyn 2018. O ran y cyllido, byddai adroddiad arall i'r Cyngor cyn diwedd y flwyddyn hon.

Cynigodd y Cynghorydd Howarth addasiad i argymhelliad 2.1.3 pwynt bwled 2, i ddarllen:

- *Bydd cyfleoedd benthyca darbodus yn cael eu harchwilio.*

Eiliwyd y cynnig ac fe drafododd Aelodau'r cynnig:

- Pwysleisiodd y Cynghorydd V. Smith bod Aelodau'n camddehongli'r pwynt bwled dan sylw, a phwysleisiwyd y byddai gan yr ysgolion gyllideb yn seiliedig ar arwyneb y llawer ac y byddai'n costio llai i gynhesu dyluniad newydd.
- Darparodd y Prif Weithredwr gyd-destun ar y mater, a darparu gwybodaeth yn ymwneud ag ariannu cyfreithiol ysgolion.
- Holodd yr Aelod o'r Cabinet, os dynnir yr argymhelliad, pa wasanaethau mae'r Aelodau'n awgrymu sy'n cael eu stopio er mwyn darparu'r cyllid.
- Cadarnhawyd y byddai'r holl arbedion ynni yn dod allan o gyllid yr ysgol gyfan ac yn cael ei defnyddio i dalu'n rhannol am y diffyg cyllid er mwyn symud y rhaglen hon ymlaen.

Fe gytunodd y Cyngor i gynnal pleidlais ar gofnod o'r addasiad a gynigwyd i'r argymhelliad. Roedd y canlyniad fel a ganlyn:

O blaid: Cynghorwyr Sir Batrouni, Blakebrough, Chapman, Down, Easson, Farley, Hayward, Howarth, D. Jones, A. Watts, Williams, Wintle.

Yn erbyn: Cynghorwyd Sir Burrows, Clarke, Dovey, R. Edwards, D. Edwards, Fox, Greenland, Guppy, Hacket Pain, Hickman, Hobson, Howard, P. Jones, Jordan, Murphy, Powell, Prosser, Smith, Strong, Webb.

Gyda 12 o blaid, a 22 yn erbyn, fe drechwyd y cynnig.

Felly, fe benderfynodd y Cyngor gytuno i'r argymhellion yn yr adroddiad:

- Mae Bwrdd Rhaglen Ysgolion y Dyfodol yn awgrymu bod y Cyngor:

➢ Yn cymeradwyo cynnydd i'r cyllidebau cyfalaf canlynol:
  - Ysgol Cil-y-Coed o £34.9 miliwn i £40.175 miliwn
  - Ysgol Trefynwy o £41.049 miliwn i £47.674 miliwn

➢ Cymeradwyo gofyniad cyllid ychwanegol o £11.9 miliwn i gyflwyno'r rhaglen hon, i'w gyllido trwy:
  - Cyfraniad o 50% gan Lywodraeth Cymru - £5.95 miliwn (cadarnhad wedi'i atodi yn Atodiad 1).

- Cyfraniad o 50% gan y Cyngor - £5.95 miliwn

- Cytuno i roi awdurdod dirprwyedig i'r Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog dros Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid, i bennu'r pecyn ariannu gorau ar gyfer cyfraniad y Cyngor o £5.95 miliwn gan ystyried:
  - Cyfle i ryddhau asedau ychwanegol dan berchnogaeth y Cyngor i'w gwerthu;
  - Cyfleoedd benthyca darbodus gyda chyfraniadau blynyddol o gyllidebau Ysgol Cil-y-Coed a Threfynwy gan gydnabod gwelliannau arwyddocaol mewn arbed ynni a chael gwared ar unrhyw angen faterol i gynnal a chadw'r adeilad am gyfnod estynedig.
  - Cael ei gynnwys o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o ddarpariaeth refeniw (£476k) i ariannu'r £5.95 miliwn yn llawn trwy fenthyca darbodus dros 25 mlynedd.

- Cytuno y bydd yr arbedion gofynnol yn y gyllideb refeniw i ariannu'r benthyca ychwanegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gyllideb a phroses y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

- Cytuno i ystyried ymagwedd ddiwygiedig at gyfleusterau hamdden newydd ar gampws Trefynwy fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 3.13 a 3.14. Bydd adroddiad pellach yn cael ei darparu i'r Cyngor ym mis Ionawr 2017.

**The meeting ended at Time Not Specified**